



Datganiad i'r Wasg: 17.10.17

Tŷ Cerdd yn lansio **academi côr** – yr ysgol haf gorawl gydag acen Gymreig

Mae **academi côr**, ysgol haf breswyl newydd sbon i oedolion o gantorion corawl profiadol yn cael ei lansio heddiw.

Yn fenter newydd gan Tŷ Cerdd – gyda'i genhadaeth i hybu cerddoriaeth Cymru – bydd **academi côr** yn darparu hyfforddiant corawl uchel ei safon dros wythnos ddwys o sesiynau ymarfer, gweithdai, dosbarthiadau meistr a pherfformiadau cyhoeddus.

Cynhelir yr **academi côr** gyntaf yn Nhrefynwy (yn Ysgol Ferched yr Haberdashers) rhwng 19 a 25 Awst 2018 ac fe'i harweinir gan y cyfansoddwr/arweinydd enwog o Gymru, Paul Mealor, wedi'i gefnogi gan dîm nodedig o diwtoriaid lleisiol. Bydd y soprano Gymreig adnabyddus, Elin Manahan Thomas, hefyd yn cymryd rhan - gan gyflwyno dosbarth meistr i aelodau unigol o'r côr ynghyd â datganiad caneuon i'r cyhoedd. Bydd y côr yn cymryd rhan yn y Weddi Hwyr yn Eglwys y Santes Fair Trefynwy 22 Awst a phenllanw'r wythnos fydd cyngerdd cyhoeddus yng Nghadeirlan Llandaf nos Sadwrn 25 Awst.

Mae traddodiad corawl Cymru yn ganolog i repertoire **academi côr**, sy'n cael ei dynnu o ystod o gyfnodau, arddulliau a gwledydd: rhoddir sylw i gerddoriaeth gan William Mathias, Grace Williams a Paul Mealor ochr yn ochr â ffefrynnau corawl (gan gynnwys Requiem Fauré) a bydd Tŷ Cerdd yn comisiynu gwaith newydd gan gyfansoddwr o Gymru i'w gynnwys yn y rhaglen.

Yn ôl Deborah Keyser, cyfarwyddwr Tŷ Cerdd, “Mae **academi côr** yn dathlu treftadaeth gyfoethog cerddoriaeth lleisiol Cymru – felly, mae gosod gwaith newydd sbon ochr yn ochr â ffefrynnau corawl yn arbennig o bwysig i ni. Rydyn ni'n gwybod, drwy ein cysylltiad â chymdeithasau a grwpiau perfformio ar hyd a lled y wlad, fod canu corawl a cherddoriaeth gymunedol yn ffynnu – a thrwy **academi côr** ein nod yw crynhoi a datblygu'r gwaith pwysig sy'n digwydd yn rhanbarthol. Gwefr fawr i ni yw bod Paul Mealor a'n tîm gwych o diwtoriaid lleisiol yn rhan o'r fenter; mae eu sgiliau hyfforddi corawl yn eithriadol a'u hasbri a'u brwdfrydedd yn heintus. Rydyn ni wir yn edrych ymlaen at groesawu côr-gantorion o bob cwr o'r wlad.”

Saethodd Paul Mealor i entrychion enwogrwydd rhyngwladol pan berfformiwyd ei *Ubi caritas* yn y briodas frenhinol yn 2011. Mae Paul yn croesawu'r fenter. “Dw i'n edrych

ymlaen cymaint at yr **academi côr** gyntaf, a dw i wrth fy modd o gael gwahoddiad i gymryd rhan. Cyfle fedrwn i mo'i wrthod oedd hwn – cyfle i fwynhau wythnos ddwys o gerddora gyda chantorion o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Pob clod i Tŷ Cerdd am fynd ati i drefnu'r ysgol haf yma – ni all ond cryfhau grym ein traddodiad corawl.”

Bydd ceisiadau am leoedd yn cau ar 30 Tachwedd. Am fanylion llawn gweler:

www.academicor.co.uk

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â: academicor@tycerdd.org / 029 2063 5640

Nodiadau i Olygyddion

Tŷ Cerdd - www.tycerdd.org

Cenhadaeth Tŷ Cerdd yw hybu a dathlu cerddoriaeth Cymru. Drwy ein gweithgareddau – sy'n gynnwys stiwdio recordio, label recordio a gwasgnod mewnol – a chydag amrywiaeth o bartneriaid, rydym yn gweithio i ddod â cherddoriaeth Gymreig i gynulleidfaoedd ar draws ein cenedl ac i bedwar ban byd; i ddiogelu cynhyrfa cerddoriaeth Cymru o'r gorffennol a chefnogi creu a pherfformio cerddoriaeth newydd.

Tiwtoriad Llais (am fywgraffiadau, ewch i <https://www.academicor.co.uk/staff>)

Zoë Milton-Brown

Kate Woolveridge

Huw Llewelyn

Dyfed Wyn Evans